

**GOFYNION POLISI COLEGAUCYMRU AR
GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU**

**DYFODOL ADDYSG BELLACH A HER Y
GYMRAEG**

Mawrth 2021

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ehangu ar *Llwyddiant Pellach: Argymhellion Polisi ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru mewn Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru* Colegau Cymru. Ynghyd â'n hadroddiad *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, mae'r dogfennau hyn yn cyflwyno gweledigaeth a gweithredu ymarferol ar gyfer addysg bellach yng Nghymru.¹

Crynodeb

Fel rhan allweddol o fywyd Cymru, mae ystyriaethau o'r Gymraeg yn rhedeg drwy bob un o bum thema bolisi Colegau Cymru. Amlygir isod yr agwedd Gymraeg o bob thema, a sut y gall Llywodraeth nesaf Cymru gefnogi'r sector addysg bellach i barhau i ddarparu darpariaeth a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cefndir

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2020, nododd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod 28.8% o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 872,200 o bobl². Mae'n bwysig nodi bod strategaeth iaith Gymraeg bresennol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050³, yn nodi bod y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn seiliedig ar ddata cyfrifiad ac y bydd cynnydd tuag at y targed hwn yn cael ei fonitro gan ddefnyddio data cyfrifiad yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn pwysleisio bod angen i Gymru gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Er mwyn gwireddu gweledigaeth Cymraeg 2050, cynhyrchodd Coleg Cymraeg Cenedlaethol *Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg*⁴. Mae'r cynllun yn nodi sut y gall addysg a hyfforddiant ôl-orfodol helpu i sicrhau bod y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn cael ei gyflawni. Mae nid yn unig yn cefnogi polisi Cymraeg 2050, ond mae hefyd yn cyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

¹ John Buchanan et al., *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru*, Colegau Cymru, 2021, ar gael yn: <https://www.colleges.wales/image/publications/reports/Enabling%20Renewal%20-%20FE/Enabling%20Renewal%20-%20FE.pdf>

² https://llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-hydref-2019-i-fedi-2020?_ga=2.192120815.492377095.1616062136-991468843.1594652056

³ [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

⁴ <http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/2015colegcymraeg/dogfennau/s-2210/tuagatcymraeg2050.pdf>

Mae colegau yng Nghymru yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 a chynllun gweithredu Tuag at Gymraeg 2050. Mae'r meysydd penodol sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg isod yn sail i sut yr hoffai Colegau Cymru weld yr iaith yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth nesaf Cymru.

Ehangu hawl ac ymgysylltiad dinasyddion ag addysg

Yn 2019/20 o 323,255 o weithgareddau dysgu mewn colegau yng Nghymru, cyflwynwyd 10,205 naill ai drwy ddysgu ac asesu Cymraeg neu ddwyieithog⁵. Os yw Llywodraeth nesaf Cymru yn derbyn argymhelliad Colegau Cymru o newid sylfaen statudol addysg i ganiatáu hawl wedi ei ariannu i gael mynediad at gymhwyster Lefel 3 cyntaf at ac yn cynnwys pawb hyd at 25 oed, rhaid ystyried y cyfrwng darparu. Dylai dysgwyr gael yr opsiwn i gwblhau cymhwyster ac asesiad Lefel 3 yn y pwnc o'u dewis drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn golygu cael yr ymarferwyr yn eu lle gyda'r sgiliau iaith sydd eu hangen i ddarparu addysgu effeithiol. Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith sy'n rhedeg mewn colegau ar hyn o bryd, sy'n gweld ymarferwyr yn magu hyder yn eu defnydd o'r iaith, wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, bydd angen hyfforddiant mwy penodol i sicrhau bod pob ymarferydd yn hyderus i ddarparu ei gwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pandemig COVID-19 wedi golygu mai dysgu ar-lein yw'r normal newydd i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ledled y wlad. Dylid annog dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i ystyried defnyddio gosodiadau Cymraeg wrth sefydlu dyfeisiadau os ydynt yn ddigon cymwys er mwyn hybu eu sgiliau ieithyddol. Byddai hyn yn ymestyn i ddefnyddio meddalwedd Cymraeg ar gyfer defnyddio gweithrediadau fel gwirio sillafu hefyd.

Yn ogystal, dylid digideiddio'r holl ddeunyddiau dysgu yn Gymraeg. Mae hyn yn gwella hygyrchedd, ac yn helpu Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) i fodloni Safonau'r Gymraeg. Er bod adnoddau'n cael eu cyhoeddi'n llai aml yn y Gymraeg, dylid ystyried yr ehangu gofynnol mewn dysgu ar-lein/cyfunol yn sgîl COVID-19 fel cyfle i gydfrynhoi adnoddau a chyflwyno adnoddau llawer mwy cyfunol yn ddwyieithog.

Er bod dysgu ar-lein wedi dod yn anghenraid i'r mwyafrif o ddysgwyr, mae sawl ardal sydd yn dioddef cysylltedd gwael wedi eu lleoli yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae'r rhain yn aml yn ardaloedd lle mae crynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth ychwanegol i ddysgwyr yn yr ardaloedd hyn sydd yn wynebu risg o ynysu digidol a ieithyddol.

⁵ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education/learningactivitiesfurthereducationinstitutions-by-subject-mediumofdelivery>

System gydlynol a chysylltiedig sydd yn cynnwys cymwysterau hyblyg sy'n cael eu gwerthfawrogi

Mae Colegau Cymru yn credu bod angen i ddatblygu system gydlynol a chysylltiedig o gymwysterau sydd yn hyblyg ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

O ran ariannu, mae'r fethodoleg ddyrannu ôl-16 bresennol yn hybu cystadleuaeth sefydliadol. Trwy newid y fethodoleg ariannu bresennol a symud tuag at fethodoleg lle mae anghenion dysgwr unigol yn cael eu blaenoriaethu, byddai cyfle pellach i gymryd rhan mewn astudiaeth cyfrwng Cymraeg. Gallai'r rheiny sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl sydd wedi mynychu ysgolion Saesneg gael cyswllt â chyrtsiau ôl-16 sydd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg lle mae hynny o fudd ac yn briodol.

Mae Colegau Cymru yn eirioli creu a datblygu cymwysterau datblygol, llyfn nad ydynt wedi eu cyfyngu i astudio am gyfnodau sefydlog neu am nifer benodol o oriau yr wythnos. Mae'n hanfodol bod cymwysterau o'r fath yn cael eu rheoleiddio a'u hachredu'n briodol er mwyn sicrhau bod eu dibynadwyedd yn cael ei gynnal, a'u bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru amlinellu safonau a dulliau asesu sydd yn ofynnol i ddyfarnu cymwysterau o'r fath. Byddai hyn hefyd yn golygu sefydlu'r gweithlu gyda digon o sgiliau Cymraeg er mwyn asesu'r cymwysterau hyn.

Hawl i les are gyfer dysgwyr a staff

Mae Colegau Cymru yn credu dylai dysgwyr a staff mewn SABau yng Nghymru dderbyn darpariaeth les ac iechyd meddwl o ansawdd uchel.

Waeth pa sefydliad ôl-16 y mae dysgwr yn ei ddewis unwaith y bydd yn gadael yr ysgol, rhaid i gymorth fod ar gael yn rhwydd yn ei ddewis iaith. Os yw dysgwr wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg tra'i fod yn mynychu'r ysgol, er enghraifft, yna dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael iddynt o hyd wrth drosglwyddo i sefydliad ôl-16. Dylai'r sector addysg bellach gael cymorth digonol i allu darparu gwasanaethau dwyieithog i ddysgwyr. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod digon o weithwyr proffesiynol yn derbyn hyfforddiant ym maes iechyd meddwl er mwyn gallu gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylai pobl sy'n dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg orfod aros mwy na'r rheiny sy'n dewis gael mynediad drwy gyfrwng Saesneg. Dylai'r holl adnoddau, deunyddiau darllen a gwasanaethau ar-lein perthnasol fod ar gael yn ddwyieithog.

Sgiliau ac ymgysylltu busnes gwell

Cred Colegau Cymru fod angen datblygu gwell sgiliau ac ymgysylltu â busnesau.

O edrych ar arfer gorau rhyngwladol, gallai Cymru elwa o sefydliad cenedlaethol â ffocws sy'n ymroddedig i addysg a hyfforddiant galwedigaethol, sydd hefyd yn galluogi staff i gynnal eu sgiliau proffesiynol. Wrth sefydlu Canolfan o'r fath, gallai Cymru adeiladu ar enghreifftiau o Wlad y Basg, yn fwyaf amlwg Tknika. Mae'r Ganolfan yn gweithio ac yn dysgu drwy gyfrwng y Basg yn hytrach na Sbaeneg. Yn debyg i'r Gymraeg, siaredir Basgeg gan nifer fach o'r boblogaeth (751,500 yn 2016⁶). Fodd bynnag, fel y gwelir gyda TKNIKA, mae'n uchel ei barch, ac mae sector addysg bellach y Basg yn hanfodol i ddatblygiad economaidd y wlad. Cred Colegau Cymru y gallwn, wrth sefydlu sector hyfforddiant addysg alwedigaethol penodedig yng Nghymru, hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau ei phwysigrwydd i fusnesau yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae angen i gymorth busnes a sgiliau fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae angen i ddarpariaeth a datblygiad iaith Gymraeg fod yn ganolog i gynllunio sgiliau a galw am lafur, ac mae hyn yn cynnwys trafodaethau mewn Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Gweithlu addysg bellach addas ar gyfer dyfodol

Mae Colegau Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i greu gweithlu addysg bellach sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Byddai'r sector addysg bellach yn elwa ar ymagwedd newydd tuag at weithredu safonau proffesiynol statudol i gynorthwyo datblygiad proffesiynol, arloesedd, arweinyddiaeth a chydweithredu. Trwy fabwysiadu model gorfodol, bydd y sector addysg bellach mewn sefyllfa well i ddarparu'r safon addysgu uchaf posibl er budd dysgwyr. Byddai'r safonau hyn yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad y cwricwlwm, dylunio manylebau swydd a pherson, gweithredu fel offeryn meincnodi, ac i annog arloesi yn ogystal â helpu i wneud yr iaith Gymraeg yn greiddiol i raglenni dysgwyr.

Wrth ystyried y ffordd orau o ddenu'r gweithwyr proffesiynol mwyaf cymwys yn y diwydiant i leoliad y coleg, mae'n bwysig ystyried manteision gweithio mewn diwydiant yn erbyn gweithio yn y sector ôl-16. Ar hyn o bryd, mae gweithwyr proffesiynol diwydiant yn debygol o gael gwaith ar gyflog uwch mewn diwydiant na mynd i mewn i'r sector addysg bellach i addysgu. Mae'r broblem hon yn cael ei gwaethygu ymhellach wrth annog gweithwyr diwydiant proffesiynol Cymraeg eu hiaith i fynd i mewn i'r sector. Mae tua 872,000 o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru. Yn anochel, mae nifer y gweithwyr proffesiynol mewn diwydiant sydd hefyd yn siarad Cymraeg i safon y maent yn hyderus i'w defnyddio i addysgu yn her ychwanegol wrth geisio eu denu i'r sector addysg bellach. Dylid ystyried

⁶ <http://www.hellabasque.org/wp-content/uploads/2018/09/Euskara-Infographic-2.png>

gofynion gorfodol gallu yn y Gymraeg mewn safonau proffesiynol a hefyd yn y rhaglenni Statws Athro Cymwysedig (SAC) sydd newydd eu datblygu ar gyfer darlithwyr galwedigaethol ac academaidd.

Casgliad

Mae'r sector addysg bellach yng Nghymru yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a thrwy'r gofynion polisi hwn mae'r gobaith i ymgorffori'r Gymraeg wrth wraidd ei gwaith. Mae gan bob coleg gylch gwaith i weithio tuag at gyrraedd y targedau cyfrwng Cymraeg a osodwyd i ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn ogystal â Safonau'r Gymraeg.

Fodd bynnag, ni fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud heb gymorth Llywodraeth nesaf Cymru. Bydd angen cymorth ar gyfer mwy o ddarpariaeth Gymraeg gan y sector, er enghraifft ddarpariaeth iechyd meddwl neu adnoddau addysgol. Yn yr un modd, bydd angen anogaeth ar bobl ifanc hefyd i gael mynediad i'w haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd angen cymorth ar ddysgwyr sy'n oedolion i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith, wrth i ni adeiladu gweithlu'r dyfodol gyda sgiliau Cymraeg cryf.



Ffôn

02920 522 500

Colegau Cymru

U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

E-bost

helo@colegaucymru.ac.uk

Gwefan

www.colegau.cymru